Mehefin 2024

Annwyl Ymgeisydd,

**Ynghylch: Eiriolwr Llinell Gymorth**

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd uchod ac mewn ymuno â Chymorth i Ferched Cymru. Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, gweler isod neu ewch i'n gwefan: www.welshwomensaid.org.uk.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

- Swydd ddisgrifiad manwl, tasgau allweddol, a manyleb person
- Gweithio yn Cymorth i Ferched Cymru
- Proses recriwtio
- Gwerthoedd, gweledigaeth a chenhadaeth Cymorth i Ferched Cymru.

**Dyddiad cau: 15 Gorffennaf 2024**
**Cyfweliadau: 24 a 25 Gorffennaf 2024**

Yn gywir,

Emily Watson
**Rheolwr Adnoddau Dynol a Lles y Gweithlu**
**Cymorth i Ferched Cymru**

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Ffôn: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Eiriolwr Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

- £27,852.00 - £29,439.00 y flwyddyn
- 37.5 / 25 yr wythnos
- Contract parhaol
- Yn y swyddfa (ger ein swyddfa yng Nghaernarfon). Rhaid bod yn barod ac yn gallu cymudo.

**Dyddiad cau:** 15 Gorffennaf 2024
**Cyfweliadau:** 24 a 25 Gorffennaf 2024. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn bersonol yn ein swyddfa ym Mhenygroes, ger Caernarfon.

**Swydd ddisgrifiad cryno:**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhan o'n tîm Llinell Gymorth, gan adrodd i'n Arweinwyr Tîm Llinell Gymorth. Fel rhan o'r swydd, byddwch yn:

Ymateb i ymholiadau i'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a dderbyniwyd dros y ffôn, e-bost, gwe-sgwrs neu neges destun i'r canlynol:

- Darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyfeirio cyfrinachol i unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol a/neu unrhyw fath arall o drais yn erbyn menywod, ac i'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan.
- Gwerthuso ac ymateb i angen, a lleihau'r risg i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol, neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod.
- Cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at wasanaethau cymorth priodol gan ddefnyddio'r llwybrau atgyfeirio sefydledig.

Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu.

## Manyleb y Person

Mae'r swydd hon yn agored i ferched yn unig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn unol ag Atodlen 9, Rhan 1, sy'n cynnwys unrhyw ymgeiswyr sydd â phrofiad byw o fod yn ferch. Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein sefydliad yn lle cynhwysol i weithio.

Oes gennych chi brofiad o'r canlynol:

- Gweithio o fewn gwasanaeth cam-drin domestig, trais rhywiol, neu drais yn erbyn menywod neu debyg.
- Darparu gwasanaethau cymorth Llinell Gymorth uniongyrchol.
- Gwaith shifft, yn enwedig gwaith shifft nos.
- Diogelu oedolion a phlant.

Oes gennych chi wybodaeth am y canlynol:

- Dealltwriaeth o gam-drin domestig/trais rhywiol a'r effeithiau.
- Dealltwriaeth ddao'r gwasanaethau sydd ar gael ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol a allai gefnogi goroeswyr.
- Gwybodaeth berthnasol am unrhyw un neu bob un o'r meysydd canlynol: Budd-daliadau, Materion cyfreithiol, Tai, Diogelu plant ac oedolion ag anghenion cymorth ychwanegol, Mewnfudo

Ydych chi:

- Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag unigolion a sefydliadau gwahanol.
- Yn wrandäwr ardderchog – gyda phwyslais ar dact, empathi, amynedd a charedigrwydd.
- Yn wydn yn emosiynol gyda'r gallu i ddelio â galwadau a chysylltiadau emosiynol.
- Yn gallu blaenoriaethu llwyth gwaith a chyflawni nifer o dasgau ar yr un pryd mewn amgylchedd gwaith prysur.
- Yn drefnus, gyda'r gallu i gofnodi, adrodd ac ymateb i broblemau sy'n effeithio ar y gwasanaeth Llinell Gymorth.
- Yn gallu meithrin perthynas waith gadarnhaol gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.
- Yn gallu cyflawni eich gwaith gweinyddol eich hun, dangos sgiliau TG da a'r gallu i ddysgu meddalwedd newydd.
- Wedi ymrwymo i'ch dysgu a'ch datblygiad eich hun, ac yn gallu ymgymryd â thasgau newydd gyda brwdfrydedd.

## Manylion y Swydd: Tasgau Allweddol

**Tasgau penodol i'r rôl**

- Ymateb i ymholiadau drwy amrywiol blatfformau - ffôn, e-bost, negeseuon testun, a gwe-sgwrs - ynglŷn â phob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Sefydlu ac asesu'r anghenion sy'n cael eu cyflwyno a darparu mynediad at wybodaeth a chymorth mae goroeswyr a chysylltiadau eraill yn gofyn amdanynt, gan bennu'r camau cywir sydd eu hangen.
- Cymryd camau prydlon a phriodol i ymateb i unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth yr ydych chi'n asesu ei fod mewn perygl penodol ac uniongyrchol o niwed.
- Eirioli ar ran goroeswyr, gan gynrychioli'n gywir ac yn glir eu safbwyntiau perthnasol a'u dymuniadau i asiantaethau priodol, gyda'u caniatâd ac yn unol â chynlluniau eiriolaeth y cytunwyd arnynt a pholisïau Cymorth i Ferched Cymru a sicrhau bod eu hiechyd a'u diogelwch yn cael blaenoriaeth.
- Trafod agweddau perthnasol ar amgylchiadau ac anghenion goroeswyr gydag asiantaethau a darparwyr perthnasol, gyda chaniatâd ac yn unol â pholisïau Cymorth i Ferched Cymru.
- Trin y defnyddiwr gwasanaeth gydag urddas a pharch, gan dderbyn yr hyn maen nhw'n ei ddweud, ac osgoi bod yn feirniadol.
- Sicrhau cyfathrebu mewnol a llifau gwybodaeth effeithiol ac effeithlon, a meithrin cydweithrediad rhwng aelodau'r tîm.

**Cyfrifoldebau cyffredinol**

- Cyfathrebu rhyng-dîm cyson a chywir ynghylch prosiectau a thasgau allweddol i leihau dyblygu a chynyddu cydweithio.
- Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol gan ganolbwyntio'n benodol ar fframweithiau diogelu, iechyd a diogelwch, cyfleoedd cyfartal, a sicrhau ansawdd, cynnal asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau yn ôl y gofyn.
- Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru yn darparu arfer gorau wrth hyrwyddo natur groestoriadol a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr holl wasanaethau a swyddogaethau.
- Cymryd cyfarwyddyd ar brosiectau a blaenoriaethau gan eich rheolwr llinell, a all amrywio.
- Cyfrifol am ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd.

## Gweithio yn Cymorth i Ferched Cymru

Yn ogystal â chyflog cystadleuol, gall y rhan fwyaf o'n rolau fanteisio ar y canlynol:

**Iechyd a lles:**

- Hyd at £25 o lwfans y gellir ei hawlio ar gyfer profion llygaid
- Mynediad i'n llinell gymorth cwnsela a chyngor 24 awr
- Cwnsela personol/ar-lein a sesiynau CBT
- Sesiynau goruchwylio clinigol i'ch cefnogi i gyflawni eich rôl.
- Sesiynau dal i fyny timau rheolaidd (rhithwir ac yn bersonol) i ddod i adnabod cydweithwyr ac i gael cefnogaeth gan gymheiriaid.
- Cyfleoedd i ymuno â gweithgorau mewnol i ddweud eich dweud yn natblygiad Cymorth i Ferched Cymru, megis ein Grŵp Gweithredu Rhyngadrannol lle rydym ni'n trafod ac yn mynd â gweithgareddau ymlaen i ddatblygu Cymorth i Ferched Cymru fel gweithle cynhwysol ymhellach.
- Cyfle i amrywiaeth o grwpiau cymdeithasol ledled y sefydliad fel ein clwb llyfrau, gwau a sgwrsio neu hyd yn oed ein Cystadleuaeth Pwmpen flynyddol (yr ydym ni'n ei gymryd o ddifrif!).

**Pensiwn:** Cyfraniad pensiwn cyflogwr o 6% ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 6 mis.

**Amser i ffwrdd o'r gwaith:** 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (pro rata), ynghyd â diwrnodau ychwanegol i gydnabod gwyliau banc.
Mae goramser yn ddi-dâl; mae amser i ffwrdd yn lle cael ei gymryd mewn cydweithrediad â'r rheolwr llinell.

**Dysgu a Datblygiad Personol:**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi staff i nodi a dilyn cyfleoedd i fynychu neu ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi a datblygiad personol. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyrsiau hyfforddi, cynadleddau, mynediad at ddeunyddiau dysgu a secondiadau.

**Cymal Amrywiad**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cadw'r hawl, yn dilyn ymgynghori'n llawn ac yn rhesymol gyda'r aelodau o staff dan sylw a'i hundeb llafur neu gynrychiolwyr eraill, i amrywio, ychwanegu at neu newid mewn modd arall unrhyw rai o'r telerau ac amodau cyflogaeth sy'n ymwneud â'r swydd hon.

Caiff y disgrifiad swydd hwn ei adolygu'n flynyddol a gallai fod angen ei ddiwygio yn unol â blaenoriaethau'r llwyth gwaith cyfredol gyda chytundeb y Bwrdd Gweithredol a'r Prif Swyddog Gweithredol.

Caiff perfformiad y deiliad swydd ei fonitro drwy oruchwyliaeth reolaidd y rheolwr llinell a'i adolygu yn ystod yr arfarniad blynyddol. Disgwylir i ddeiliad y swydd lunio adroddiadau rheolaidd i'w monitro a'u hadolygu gan eu rheolwr llinell a'u Prif Weithredwr yn ôl y gofyn.

## Y Broses Recriwtio:

**Gwneud cais am swydd gyda Cymorth i Ferched Cymru**

Mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant wrth wraidd ein proses recriwtio, o ganlyniad rydym yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu nad ydym yn defnyddio CVs yn ein proses ymgeisio. Yn hytrach, rydym ni'n credu mewn cyflogi'r person cywir gyda'r sgiliau cywir, rhywbeth nad yw bob amser yn cael ei adlewyrchu mewn CV. Nod ein proses ymgeisio yw rhoi cyfle i chi ddweud wrthym am brofiadau blaenorol a sgiliau cyfredol sy'n cyd-fynd â'n meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl.

Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais edrychwch ar fanyleb y person (tud. 2) a phenderfynu sut i gysylltu eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad â phob pwynt. Rydym ni'n credu yng ngwerth sgiliau trosglwyddadwy, felly os oes gennych chi brofiad blaenorol sy'n dangos sgil, gwybodaeth neu ddealltwriaeth yn y fanyleb person dywedwch wrthym amdano! Nid oes rhaid iddo fod yn waith cyflogedig blaenorol chwaith, gallai fod yn gyfle i wirfoddoli, ymrwymiad cymunedol neu hyd yn oed gyfrifoldebau neu ddyletswyddau rydych chi wedi'u dysgu yn y cartref.

.

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer cyfweliad, bydd angen i chi ddweud wrthym sut mae eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â'r meini prawf hanfodol o'r wybodaeth.

**Ffyrdd o wneud cais am rôl yn Cymorth i Ferched Cymru**
Mae tair ffordd wahanol y gallwch chi wneud cais am un o'n rolau agored:

- Trwy lenwi ffurflen gais ar-lein gan ddefnyddio'r dolenni ar ein gwefan yma. Cyn i chi ddechrau, gallwch weld rhestr o'r holl gwestiynau y bydd angen i chi eu hateb.
- NEU cliciwch yma i lawrlwytho fersiwn MS Word o'r cais a'i gyflwyno trwy e-bost. Mae hefyd wedi'i gynnwys yn y pecyn swyddi hwn.

- NEU ofyn am gopi papur drwy e-bostio recruitment@welshwomensaid.org.uk.

**Creu rhestr fer**
Ar ôl y dyddiad cau, darllenir y ffurflenni cais yn ofalus iawn i weld sut mae sgiliau a phrofiad pob unigolyn yn berthnasol i'r sgiliau a'r profiad ym manyleb y person. Mae ymgeiswyr sy'n bodloni'r gofynion hyn orau yn cael eu rhoi ar restr fer ar gyfer cyfweliad. Mae ceisiadau'n ddienw cyn y rhestr fer i leihau rhagfarn a dim ond yr adrannau perthnasol sy'n cael eu gweld gan y panel rhestr fer. Er bod ffurflen cyfle cyfartal wedi'i chynnwys yn ein proses ymgeisio, nid yw'r panel yn ei gweld ac fe'i defnyddir yn unig i lywio ein hadroddiadau recriwtio. {hysbysiad preifatrwydd yma}

**Cyfweliadau**
Mae'r panel cyfweld fel arfer yn cynnwys dau neu dri o bobl sy'n gofyn cwestiynau i bob ymgeisydd sy'n cwmpasu'r meini prawf perthnasol, er mwyn caniatáu i chi ymhelaethu ar eich cais a dangos sut rydych chi'n bodloni gofynion hanfodol y swydd. Yn dibynnu ar y rôl, efallai y gofynnir i chi gwblhau tasg/cyflwyniad naill ai yn y cyfweliad neu cyn hynny. Byddwch yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am y swydd ac am weithio yn Cymorth i Ferched Cymru ar ddiwedd y cyfweliad.

Mae aelodau'r panel yn cadw cofnod o'u hasesiad o bob ymgeisydd fel bod y rhesymau dros eu penderfyniad yn glir ac yn gyson.

**Adborth**
Os ydych chi'n aflwyddiannus ac yn teimlo y byddai adborth ar eich cyfweliad yn ddefnyddiol wrth ymgeisio am swyddi eraill, cysylltwch â ni yn recruitment@welshwomensaid.org.uk a bydd aelod o'n tîm recriwtio yn trefnu hyn i chi.

Oherwydd natur y gwaith rydym ni'n ei wneud, mae gweithio i Cymorth i Ferched Cymru yn amgylchedd gwerth chweil ond mae'n gallu bod yn heriol. Mae ein tîm Adnoddau Dynol a Recriwtio ar gael os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol am y rôl neu os oes gennych chi ofynion hygyrchedd penodol yr hoffech chi eu trafod gydag aelod o'n tîm recriwtio, gallwch ein ffonio ar 02920 541551 neu anfon e-bost yn gofyn am alwad yn ôl i recruitment@welshwomensaid.org.uk.

## Ein gweledigaeth a'n pwrpas

Rydyn ni eisiau byd lle mae merched a phlant yn byw'n rhydd o gam-drin domestig, trais rhywiol, a phob math o drais yn erbyn menywod, a thrwy wneud hynny sicrhau annibyniaeth, rhyddid a rhyddhad rhag gormes.

# Ein gwerthoedd a'n dull gweithredu

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn sefydliad ffeministaidd, ac mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar ymrwymiadau i hawliau dynol, gwrth-wahaniaethu a rhyddid rhag gormes. Rydym ni'n cymeradwyo tystiolaeth fyd-eang bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar sail rhywedd, achos a chanlyniad sefyllfa anghyfartal menywod a merched mewn cymdeithas, yn groes i hawliau dynol, ac y gellir ei atal yn llwyr.

Mae ein dull yn seiliedig ar y sylfaen werthoedd ganlynol:

**Rydym ni'n ffeministaidd ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth profiadau byw** — rydym ni'n chwyddo lleisiau amrywiol, gan gydnabod bod hunaniaethau a phrofiad bywyd yn effeithio ar brofiadau o gam-drin a mynediad at gymorth, diogelwch a chyfiawnder. Rydym ni'n eiriol dod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben ochr yn ochr â rhyddhau pob merch a menyw rhag gorthrymderau lluosog fel rhywiaeth, hiliaeth, gwahaniaethu ar sail dosbarth, homoffobia, oedraniaeth, gwahaniaethu ar sail gallu, trawsffobia, i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i bawb.

**Rydym ni'n hyrwyddo uniondeb** — rydym ni'n atebol, ac yn gosod lleisiau goroeswyr a'u profiadau byw yn ganolog i'n gwaith. Rydym ni'n annog parch, tryloywder a dysgu o brofiad, rydym ni'n herio camddefnyddio pŵer ac yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol ym mhopeth rydym ni'n ei wneud.

**Rydym ni'n cydweithio** — rydym ni'n gweithio gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol, sefydliadau eraill, unigolion a chymunedau, i feithrin gallu gwasanaethau ac i ddangos tystiolaeth a chyflawni'r hyn sy'n gweithio o ran atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Rydym ni'n grymuso** - rydym ni'n argymell dull sy'n seiliedig ar hawliau fel y gall pob menyw a phlentyn gyflawni eu potensial llawn, ac rydym ni'n hyrwyddo gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ac ar gyfer menywod/grwpiau lleiafrifol fel rhai hanfodol i ddiwallu anghenion ac i gyflawni rhyddhad cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol rhag patriarchaeth, hiliaeth a gorthrymderau eraill.

**Rydym ni'n trawsnewid** - rydym ni wedi ymrwymo i herio anghydraddoldebau a gwahaniaethu, i gyfuno gwasanaethau o ansawdd uchel gyda gweithredaeth ar gyfer newid cymdeithasol, ac adeiladu mudiad sy'n dod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben ac yn rhyddhau menywod a merched o orthrymderau lluosog a chroestoriadol er budd pawb.

Mae ein gwerthoedd a'n dull gweithredu yn sail i'n gwaith yn genedlaethol a gwaith ein haelodau. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu Newid sy'n Para sy'n cefnogi goroeswyr pob math o drais yn erbyn menywod, a'u plant, i adeiladu gwytnwch, ac sy'n arwain at annibyniaeth trwy ddull sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n seiliedig ar anghenion, wedi'i lywio gan drawma tuag at ein holl waith. I ddarllen am ein gwerthoedd, ein cenhadaeth a'n dull yn fwy manwl neu'r newid sy'n para pen model i'n gwefan.

[Gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd: Cymorth i Ferched Cymru (welshwomensaid.org.uk)]

[Newid sy'n Para: Cymorth i Ferched Cymru (welshwomensaid.org.uk)]